

Mae'r llun hwn gan awdur anhysbys wedi'i drwyddedu o dan CC BY-SA



Mae'r llun hwn gan awdur anhysbys wedi'i drwyddedu o


# CANOLFAN AWYR AGORED PENTYWYN

# PENDINE OUTDOOR CENTRE

## CROESO/WELCOME

# LLE'R OEDDEM NI

- Mae Canolfan Awyr Agored Pentywyn yn ganolfan breswyl fawr sy'n darparu aml-weithgareddau awyr agored ac sydd wedi bod ar agor ers y 1960au i gynulleidfa o Ysgolion Cynradd yn bennaf.
  - Hyd at 120 o welyau,
  - Dros 2000 o arosiadau'r flwyddyn
- Profiad arferol i ysgolion:
  - wythnos breswyl lawn o ddydd Llun i ddydd Gwener
  - Rhannu cyfleusterau:
    - gydag ysgolion eraill (clystyrau o ysgolion) gan gynnwys cabanau a rennir, cyfleusterau bwyta a theithio mewn bws mini i weithgareddau.



Mae'r llun hwn gan awdur anhysbys wedi'i drwyddedu o



# LLE'R OEDDEM NI - CYFLAWNI'R RHAGLEN

- Mae'r rhaglen yn gymysgedd o'r canlynol:
  - Gweithgareddau ar y safle gan gynnwys defnydd o'r môr a'r llain arfordirol, y tŵr dringo a gweithgareddau meithrin tîm.
  - Gweithgareddau oddi ar y safle gan gynnwys gweithgareddau ar y llynnoedd, yn y coedwigoedd ac ar yr afon. Opsiwn diwrnod allan, fel arfer ymhellach i'r gorllewin, mewn bws.
  - Gweithgareddau gyda'r nos - Tŷ Crwn, Cyfeiriannu a Thaith Natur
- Pris cystadleuol iawn:
  - £175.00 yn y sir (£125.00 am PYDd) gyda'r bwriad o gadw mynediad at y profiad mor agored â phosibl.
- Mae'r opsiynau dibreswyl presennol yn cynnwys Diwrnodau Allan: Pen y Fan, astudiaethau afonydd ac ati, a theithiau â phabell i fyny'r Wyddfa hefyd.

Mae'r llun hwn gan awdur anhysbys wedi'i drwyddedu o

# LLE RYDYM NI NAWR - EFFAITH COVID-19

- Mae'r diwydiant awyr agored yn ei gyfanrwydd wedi cael ei daro'n arbennig o galed ac mae'r diwydiant yn y fantol:
  - Mae canolfannau preswyl wedi dwyn y baich yn arbennig a bydd llawer yn cau.
  - Diffyg sicrwydd o ran y dyfodol.
  - Risg sylweddol o golli capasiti.
  - Staff yn gadael y diwydiant - colli ymarferwyr medrus a llai o staff newydd yn dod i mewn i'r diwydiant. Llai o gyfle mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach i astudio.
  - Effeithio ar brofiad posibl y cleient yn y dyfodol.

Mae'r llun hwn gan awdur anhysbys wedi'i drwyddedu

# LLE RYDYM NI NAWR - EFFAITH COVID-19

- Y sefyllfa bresennol
  - Mae Pentywyn wedi bod ar gau i grwpiau preswyl ers mis Mawrth 2020 gan fod staff wedi cael eu rhoi ar ffyrlo a'u hadleoli, ac mae angen mynd i'r afael â phroblemau atgyweirio a chynnal a chadw parhaus ynghyd â blaengynllunio/modelu ariannol.
  - Cyflogir hyfforddwyr ar sail achlysurol - dim sicrwydd y byddant yn dychwelyd.
  - Mae'r gwaith blaengynllunio cyfalaf wedi'i ohirio.
  - Mae gwaith manwl yn cael ei wneud ar opsiynau'r dyfodol.
- Yr effeithiau y bydd hyn yn ei gael ar blant a phobl ifanc:
  - Dim profiad preswyl, a waethygir gan fesurau sy'n ceisio lliniaru effeithiau COVID-19. Yn enwedig yr effaith ar lesiant ac iechyd meddwl.


Mae'r llun hwn gan awdur anhysbys wedi'i drwyddedu o

# BETH YW EIN CAM NESAF?

- Ceisio gwneud penderfyniad - mae'r diwydiant yn ansicr iawn ac mae'n debygol y bydd llawer o'r canolfannau yn cau
- Tebygol iawn na fydd unrhyw brofiadau preswyl yn cael eu cynnal cyn Pasg 2021
- Bydd ymweliadau ysgol yn ysbeidiol neu ddim yn digwydd o gwbl
- 'Edrych ymlaen at 2021'
- Sefydlwyd Fforwm Addysg Awyr Agored i weithredu fel panel o arbenigwyr ac i wrando
- Gweithredu mewn cyfnod COVID-19 ar ôl Pasg 2021
  - Lleihau risg, gwneud y mwyaf o bosibiliadau
  - Nid dim ond yng Nghanolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn. Ymagwedd hyblyg a pherthnasol
  - Mae bod yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn hanfodol

Mae'r llun hwn gan awdur anhysbys wedi'i drwyddedu o

# DARPARIAETH Y DYFODOL – AR Y SAFLE



- Cynnig bod ysgolion yn cael y safle iddynt eu hunain ar gyfer eu harchebion preswyl - 'diogelu mewn swigod'
  - Archebion ar gyfer hanner wythnos - 2 noson yn unig.
  - Rhaglen wedi'i haddasu - dim defnydd o fysiau mini. Gweithgareddau ar y safle ac o fewn pellter cerdded yn unig.
  - Caban Pwrpasol.
  - Rheoli COVID-19 wrth fwyta/arlwyo a glanhau - gan gynnwys glanhau yn drwyadl cyn/ar ôl.
- Manteision: ceisio cynnig archeb gadarn sy'n ennyn hyder.
- Anfanteision: arosiadau byrrach, llai o ryngweithio rhwng ysgolion, rhai gweithgareddau ddim yn cael eu cynnig.
- Llai o gapasiti yn y tymor prysur - mae arosiadau wedi'u harchebu rhwng mis Mawrth a dechrau mis Tachwedd. Nid oes sicrwydd y bydd slot yn yr haf.
- Lefelau hyder ynghylch hyn a'r nifer sy'n debygol o gymryd rhan, gan gynnwys y tymor ymylol?
- A allwn ni staffio hyn? A fydd staff yn dychwelyd i'r diwydiant?


Mae'r llun hwn gan awdur anhysbys wedi'i drwyddedu o

# AR ÔL COVID-19
# Y NORMAL NEWYDD A BOD YN BERTHNASOL

- Wynebu realiti. Gweithio gydag Addysg ar archwilio opsiynau eraill, nid yng Nghanolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn yn unig.
- Opsiynau craidd y dyfodol: Bod yn fwy symudol (buddsoddi mewn cerbydau ac offer).
- Ymweliadau dydd â safleoedd ysgolion a mynd ag ysgolion i safleoedd eraill
  - Defnyddio'r Tŵr Dringo
  - NNAS - cefnogi gyda mathemateg/datrys problemau,
  - Gwobr John Muir - lleoedd gwyllt, amgylcheddol/cadwraeth ac ati.
  - Datblygu Doc y Gogledd fel man ar gyfer cychod
- Defnyddio cyfleusterau preswyl eraill yn y Sir
  - Prosiect Denu Pentywyn, Padlwyr Llandysul, Canolfan Ieuenctid Cwmaman
- Datblygu arosiadau preswyl â phebyll mewn gwahanol ardaloedd o'r Sir.



Mae'r llun hwn gan awdur anhysbys wedi'i drwyddedu o



# CRYNODEB
# Y NORMAL NEWYDD A BOD YN BERTHNASOL

- Mae Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn yn gyfleuster poblogaidd sy'n heneiddio
- Mae cwsmeriaid yn hapus iawn gyda'r gweithgareddau sy'n cael eu darparu
- Bydd angen i waith y dyfodol gyfuno â'r hyn y mae Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn yn ei ddarparu, yn ogystal â gwasanaethau preswyl a dibreswyl eraill ar amrywiaeth o safleoedd diogel yn Sir Gaerfyrddin a gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion ledled y Sir.
- Mae'r diwydiant mewn perygl. Mae hyfforddi Addysg Awyr Agored fel gyrfa mewn perygl. Fodd bynnag, gallai hwn fod yn gyfle i fod yn

Mae'r llun hwn gan awdur anhysbys wedi'i drwyddedu